Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Siarad gyda fi
# Pecyn Partner
# 2024



Siarad Gyda Fi
Talk With Me

Mae ymennydd plant yn anhygoel. Maen nhw'n tyfu ac yn creu cysylltiadau newydd yn gyson. Wrth wrando, chwarae a siarad gyda nhw, bydd eu meddyliau yn goleuo gan helpu eu hymennydd i dyfu.



# Beth yw Siarad gyda fi?

'Siarad gyda fi' yw ymgyrch Llywodraeth Cymru i annog rhieni i wrando, chwarae a siarad gyda'u plant yn y blynyddoedd cynnar (rhwng 0 a 5 oed). Rydyn ni eisiau i rieni siarad gyda'u plant bob dydd i oleuo eu meddyliau, helpu eu hymennydd i dyfu a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddynt. Ar ein **gwefan**, mae amrywiaeth o offer, awgrymiadau ac adnoddau defnyddiol a hygyrch dan arweiniad arbenigwyr, i gefnogi rhieni ar daith dysgu iaith eu plentyn. Nod y pecyn cymorth hwn fydd rhannu'r adnoddau sydd ar gael, i rieni ac ymarferwyr, a ble i ddod o hyd iddyn nhw ar-lein.

**Ein hamcanion yw:**


- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am bwysigrwydd gwrando, chwarae a siarad gyda babanod a phlant ifanc.
- addysgu teuluoedd i wella sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plant a gwybod pryd i ofyn am gymorth proffesiynol os oes pryderon am eu datblygiad.



# Beth ydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn?

**Ers ei lansio yn 2021, mae Siarad gyda fi wedi bod ar daith anhygoel. Mae codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ac addysgu teuluoedd am sut y bydd datblygu sgiliau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith enfawr ar ddyfodol eu plant.**

- Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Mawrth 2023, cynhyrchodd y gweithgarwch digidol y talwyd amdano 126,722 o gliciau i **wefan Siarad gyda fi.**
- Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, gwnaethom ymgysylltu â 40 o gyrff rhanddeiliaid trwy ddatblygu a gweithredu cronfa ddata ymgysylltu.
- Ers 2021, rydym wedi hyrwyddo negeseuon Siarad gyda Fi ar deledu, radio, hysbysebion y tu allan i'r cartref ac wedi sicrhau sylw golygyddol sylweddol (54) ar sawl ffynhonnell newyddion.
- Roedd nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol cyfnod yr ymgyrch yn fwy na 3,200.







# Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?

1. Rydym wedi nodi nifer o'r Canolfannau Ehangu Dechrau'n Deg newydd i sicrhau bod negeseuon 'Siarad gyda fi' yn cael eu cynnwys, gyda'r nod o wella cyfathrebu rhwng rhieni a phlant a datblygiad plentyndod cynnar.
2. Roedd ein hymgyrch ddigidol ddiweddaraf yn targedu rhieni mewn ardaloedd penodol ledled Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o Siarad gyda fi, yn enwedig mewn meysydd sy'n cael trafferthion gyda chapasiti Therapi Iaith a Lleferydd. **Yr ardaloedd hyn oedd Ynys Môn, Ceredigion, Pen-y-bont ar Ogwr, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd.** Aeth yr ymgyrch yn fyw ar Facebook a Google (Arddangos a Chwilio), yn ogystal â radio digidol a oedd yn targedu rhieni â phlant 0-4 oed.
3. Cynyddu ymgysylltiad rhanddeiliaid a phartneriaid drwy hyrwyddo negeseuon Siarad gyda Fi. Dyma lle gallwch chi ein helpu, drwy rannu ein hadnoddau ar eich sianeli presennol a gyda'ch cynulleidfa.





## Adnoddau i rieni





Mae gennym amrywiaeth o adnoddau sy'n ymroddedig i hysbysu a chefnogi rhieni. Maent wedi cael eu cynhyrchu gan rieni, therapyddion lleferydd ac iaith, ac amrywiaeth o ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Gellir defnyddio'r asedau gyda theuluoedd i'w helpu i gefnogi eu plentyn i siarad. Bydd y tudalennau canlynol yn dangos yr asedau sydd ar gael i chi a ble i ddod o hyd iddynt.



# Postiadau cyfryngau cymdeithasol

Rydym wedi datblygu cyfres o bostiadau cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael i chi eu rhannu â rhieni a gofalwyr yn eich rhwydweithiau. Os byddwch chi'n rhannu negeseuon a postiadau, a wnewch chi ein tagio ni a chynnwys ein hashnod **#SiaradGydaFi**.

Mae'r holl gopi cyfryngau cymdeithasol a awgrymir a ddarperir yn y pecyn hwn o fewn yr uchafswm cyfrif cymeriadau ar gyfer pob sianel gymdeithasol, gan gynnwys Twitter (X). Mae asedau creadigol i gyd-fynd â'r postiadau cyfryngau cymdeithasol ar gael i'w lawrlwytho o'r Pecyn Cymorth Cyfryngau Siarad gyda Fi **yma**.









# Postiadau hysbysebion teledu a llyfryn adnoddau

## Postiad 1: Hysbyseb teledu masnachol (10 eiliad)



**Capsiwn:** Siarad a chwarae gyda dy blant cymaint â phosibl bob dydd. Gall treulio amser gyda nhw helpu eu hymennydd i dyfu. Gall y pethau bach rwyt ti'n eu gwneud wneud gwahaniaeth mawr, nawr ac yn eu dyfodol. I gael cyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi**

## Postiad 2: Hysbysebion teledu (30 eiliad)



**Capsiwn:** Mae ymennydd plant yn anhygoel. Maen nhw'n tyfu ac yn creu cysylltiadau newydd yn gyson. Pan fyddi di'n gwrando, chwarae a siarad gyda nhw, rwyt ti'n goleuo eu meddyliau ac yn helpu eu hymennydd i dyfu. Am gyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi**

## Postiad 3: Siarad gyda fi: Llyfryn 10 tip gwych




**Capsiwn:** Gall siarad gyda dy blant yn y blynyddoedd cynnar helpu eu hymennydd i dyfu a'u helpu i ddysgu geiriau newydd. Mae'r tîm yn #SiaradGydaFi wedi datblygu deg tip gwych i gefnogi dy blentyn gyda'i siarad. Clicia ar y ddolen i wybod mwy: **llyw.cymru/siaradgydafi**

Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn o'r **Pecyn Cymorth Cyfryngau ar-lein yma**.

# Asedau goleuo fy meddwl

## Postiad carwsél dwyieithog

**Capsiwn Cymraeg:** Pan wyt ti'n siarad gyda dy blentyn, ti'n goleuo ei feddwl ac yn helpu ei ymennydd i dyfu!
I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi**

**Capsiwn Saesneg:** When you talk with your child, you light up their mind and help their brain to grow!
For tips to get your little one talking, visit: **gov.wales/talkwithme**










Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn o'r **Pecyn Cymorth Cyfryngau ar-lein yma.**

# Asedau goleuo fy meddwl


## Animeiddiadau 10 eiliad

**Gallwch ddefnyddio'r copi hwn gydag unrhyw un o'r animeiddiadau isod!**

**Capsiwn Cymraeg:** Mae pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd. Cer i **llyw.cymru/siaradgydafi** i gael tips da a chyngor arbenigol i helpu dy blentyn i siarad.

**Capsiwn Saesneg:** Every child deserves the best start in life. Visit **gov.wales/talkwithme** for fun tips and expert advice to help your child with their talking.

**Animeiddiad 1**



**Animeiddiad 2**



**Animeiddiad 3**



Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn o'r **Pecyn Cymorth Cyfryngau ar-lein yma.**

# Asedau goleuo fy meddwl

## Eitemau llonydd dwyieithog

**Gallwch ddefnyddio unrhyw un o'r delweddau hyn gyda'r copi isod!**

**Capsiwn Cymraeg:** Bydd siarad gyda dy blentyn wyneb yn wyneb, canu caneuon gyda gweithredoedd, a darllen straeon gyda'ch gilydd yn ei helpu i ddysgu geiriau newydd. I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi

**Capsiwn Saesneg:** Talking with your child face to face, singing songs with actions, and reading stories together will help them learn new words. For tips to get your little one talking,visit: gov.wales/talkwithme










Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn o'r **Pecyn Cymorth Cyfryngau ar-lein yma**.

# 10 tip i fy helpu i ddysgu siarad

## Tip 1




**Capsiwn Cymraeg:** Gall siarad gyda dy blentyn cyn iddo gael ei eni ei helpu i ddatblygu sgiliau iaith hanfodol y bydd eu hangen yn nes ymlaen mewn bywyd. Am gyngor i gael dy blentyn i siarad: **[llyw.cymru/siaradgydafi]** **#SiaradGydaFi**

## Tip 2




**Capsiwn Cymraeg:** Gall dy blentyn ddysgu unrhyw iaith o adeg ei eni! Mae siarad gyda nhw yn dy iaith orau neu gyntaf yn eu helpu i deimlo cysylltiad a dysgu am dy ddiwylliant. Am gyngor i gael dy blentyn i siarad: **[llyw.cymru/siaradgydafi]** **#SiaradGydaFi**

## Tip 3




**Capsiwn Cymraeg:** Oeddet ti'n gwybod, cyn bod dy blentyn yn gallu siarad, gall ddweud wrthyt ti sut maen nhw'n teimlo trwy gyswllt llygad, gwenu, a chrio? Am gyngor i gael dy blentyn i siarad: **[llyw.cymru/siaradgydafi]** **#SiaradGydaFi**

## Tip 4




**Capsiwn Cymraeg:** Mae dy blentyn wrth ei fodd yn dy glywed di'n canu, ac wrth ei fodd yn ymuno â symudiadau a geiriau hefyd! Paid â phoeni os nad wyt ti'n hoffi dy lais canu - fydd dim ots! Am gyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **[llyw.cymru/siaradgydafi]** **#SiaradGydaFi**

## Tip 5




**Capsiwn Cymraeg:** Cofia fod amser bwyd, amser newid cewyn ac amser bath i gyd yn adegau perffaith i siarad a chwarae gyda dy blentyn. Am gyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **[llyw.cymru/siaradgydafi]** **#SiaradGydaFi**

Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn o'r **Pecyn Cymorth Cyfryngau ar-lein [yma]**.

# 10 tip i fy helpu i ddysgu siarad

## Tip 6




**Capsiwn Cymraeg:** Oeddet ti'n gwybod bod siarad am y lluniau mewn llyfrau yn helpu dy blentyn i ddysgu geiriau newydd? Ceisia ddefnyddio wynebau a lleisiau doniol i adrodd y stori! Am gyngor i gael dy blentyn i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi** **#SiaradGydaFi**

## Tip 7




**Capsiwn Cymraeg:** Oeddet ti'n gwybod bod ailadrodd yr un geiriau dro ar ôl tro yn helpu dy blentyn i gofio geiriau newydd? Am gyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi** **#SiaradGydaFi**

## Tip 8




**Capsiwn Cymraeg:** Cofia na all dy blentyn wrando ar ddau beth ar unwaith, felly mae'n haws iddyn nhw ddysgu os yw setiau teledu a sgriniau wedi'u diffodd. Am gyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi** **#SiaradGydaFi**

## Tip 9




**Capsiwn Cymraeg:** Pan fydd dy blentyn bach yn dysgu siarad, cofia eu canmol, hyd yn oed os yw'n swnio fel eu bod nhw'n parablu! Am gyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi** **#SiaradGydaFi**

## Tip 10




**Capsiwn Cymraeg:** Mae dy blentyn wrth ei fodd yn edrych ar wynebau ac yn gwrando ar bobl yn siarad. Am gyngor i gael dy blentyn bach i siarad: **llyw.cymru/siaradgydafi** **#SiaradGydaFi**

Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn o'r **Pecyn Cymorth Cyfryngau ar-lein yma.**

# Adnodd ar gael i rieni

Mae gennym amrywiaeth o adnoddau ar ein gwefan, sydd yno i helpu rhieni. I ddod o hyd i'r adnoddau hyn, dilynwch y cyfarwyddiadau isod neu gwyliwch y **fideo**. Ewch i: **www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi**

1. Sgroliwch i lawr nes eich bod yn gweld yr isod.
2. Byddwch yn gweld ystod o adnoddau o'n pecyn rhieni a gofalwyr, i'n gwahanol ffeithlenni.



**10 tip i fy helpu i ddysgu siarad (digidol)**
Defnyddia'r llyfryn hwn i gael tips gwych i helpu dy blentyn i ddysgu siarad.



**10 tip i fy helpu i ddysgu siarad (print)**
Llyfryn i'w argraffu i gael tips gwych i helpu dy blentyn i ddysgu siarad.



**Taflen ffeithiau awtistiaeth a ADHD**
Ewch i'n taflen ffeithiau am wybodaeth a chyngor ar awtistiaeth a ADHD.



**Taflen ffeithiau dwyieithrwydd**
Ewch i'n taflen ffeithiau am wybodaeth a chyngor ar dwyieithrwydd.



**Tystysgrif**
Argraffa dy dystysgrif pan fyddi di wedi cwblhau ein her haf!



**Dalen her**
Edrych ar ein dalen her haf am weithgareddau dyddiol llawn hwyl.

Mae'r rhain i gyd ar gael i'w lawrlwytho a'u rhannu gyda rhieni.






# Adnoddau ymarferwyr


Oeddech chi'n gwybod bod gennym dudalen we benodol i gefnogi ymarferwyr? Rydym wedi dod ag amrywiaeth o awgrymiadau a chyngor at ei gilydd i helpu rhieni i ddeall pwysigrwydd eu rôl wrth gael eu plant bach i siarad. Byddem wrth ein bodd pe baech yn rhannu'r adnoddau hyn gyda'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw. Dilynwch y ddolen hon i wybod mwy: llyw.cymru/siarad-gyda-fi-canllawiau-ymarferwyr




# Adnoddau ymarferwyr

Mae gennym hefyd amrywiaeth o asedau y gellir eu rhannu ag ymarferwyr. Mae'r asedau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer ymarferwyr, ac ni ddylid rhannu'r ffeithluniau yn benodol â theuluoedd. I ddod o hyd i'r adnoddau hyn, dilynwch y cyfarwyddiadau isod neu gwyliwch y **fideo** hwn.

1. I ddod o hyd i'r asedau hyn, ewch i **llyw.cymru/siarad-gyda-fi** a sgroliwch i waelod y dudalen nes eich bod yn gweld hwn.




2. Cliciwch ar **Darganfod mwy**.

3. Bydd yn mynd â chi i dudalen gyda llawer o adnoddau i ymarferwyr eu defnyddio.
   Mae tri adnodd newydd ar gael ar y dudalen hon a allai fod o ddiddordeb arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys:



**10 tip i fy helpu i ddysgu siarad**

Defnyddia'r llyfryn hwn i gael tips gwych i helpu dy blentyn i ddysgu siarad.



**Adnoddau 10 tip gwych**

Defnyddia'r templedi tips gwych hyn i'w rhannu gyda theuluoedd rwyt ti'n eu cefnogi.



**Siarad gyda fi: adnodd llwybr hyfforddiant Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru…**

Siarad gyda fi: adnodd llwybr hyfforddiant Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan

- **Cwrs e-ddysgu rhagarweiniol i Leferydd, Iaith a Chyfathrebu**
- **Canllawiau i ymarferwyr sy'n darparu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**
- **Ffeithluniau i ddangos pam mae sgiliau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn bwysig**

# Diolch!



Diolch am eich cefnogaeth. Cofiwch ein dilyn ar Facebook @Siarad gyda fi – Talk with me. Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch neu os oes gennych unrhyw syniadau am adnoddau eraill yr hoffech eu gweld, e-bostiwch ein tîm ar SiaradGydaFi@llyw.cymru